Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol • Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

01 Mawrth 2019

Annwyl Mr Ramsay,

Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS – Y DIWEDDARAF AR ADDASIADAU I DAI, CHWEFROR 2019

Rwy'n falch iawn i gael rhoi gwybod yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt gwaith rhoi eich argymhellion ar waith a oedd i fod wedi'i rhoi ar waith erbyn diwedd Rhagfyr 2018. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi cyn anfon yr wybodaeth ddiweddaraf hon atoch a oedd i fod wedi'i hanfon atoch erbyn diwedd mis Ionawr.

Gwnaeth y Pwyllgor chwe argymhelliad. Un argymhelliad oedd i gyflawni'r gwaith erbyn mis Rhagfyr 2018. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhelliad hwn wedi'i hatodi.

Roedd tri argymhelliad yn ymwneud â chyflawni gwaith erbyn mis Gorffennaf 2019 a dau arall ynghylch cyflawni gwaith erbyn mis Rhagfyr 2019. Byddaf yn rhoi gwybod y diweddaraf ichi ynghylch argymhellion Gorffennaf a Rhagfyr ar adegau priodol.

Yn gywir

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan • website: www.cymru.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Argymhelliad 1 - *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r data perfformiad y mae wedi'u casglu fel rhan o adolygiad HWYLUSO erbyn Tachwedd 2018. Wrth gyhoeddi'r wybodaeth hon, dylai Llywodraeth Cymru nodi unrhyw ddiffygion yng nghylch cyntaf yr wybodaeth ar berfformiad y mae'n ei chasglu – er enghraifft, sefydliadau nad ydynt wedi darparu ffurflenni blynyddol – a sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â bylchau hynny.*

Y diweddaraf – Mae'r argymhelliad hwn wedi'i gyflawni. Cafodd Adolygiad HWYLUSO o'r data ei gyhoeddi ar 29 Tachwedd, ac roedd hwnnw wedi rhoi sylw i nifer o feysydd lle y gellir gwella'r gwaith casglu data. Roedd hefyd wedi nodi nifer o wersi a ddysgwyd sy'n cael eu hadlewyrchu yn y templed electronig a'r canllawiau newydd sydd wedi'u hanfon at ddarparwyr gwasanaethau.

Mae dolen at y cyhoeddiad i'w gweld isod:

https://gov.wales/docs/desh/publications/181129-enable-analysis-report-en.pdf